

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 5 Hydref 2017 am 5.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Caple – yn y Gadair

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

| | | |
|------------------|-----------|----------------|
| J. Bonetto | L. Hooper | S. Powell |
| A. Davies- Jones | G. Hughes | D. H. Williams |
| D. Grehan | P. Jarman | J. Williams |

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio
 Mr S. Humphreys - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Cynllunio a'r Amgylchedd
 Mr D. J. Bailey – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
 Mr S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

66. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees ac L. Hooper.

67. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Penderfynwyd – yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau, nad oedd unrhyw fuddiannau personol wedi'u gwneud yn y cyfarfod mewn perthynas â'r agenda.

68. Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD – nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar

Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

69 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD - Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

70 NEWID TREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

71 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017, yn rhai cywir.

72 CAIS A ARGYMHELLIR AR GYFER EI GYMERADWYO YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS

(1) 17/0493 – Tyrbin gwynt unigol hyd at uchafswm o 126 metr i ben y llafn. Ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig gan gynnwys pad craen, llwybr mynediad a chynhwysydd trydanol. (Daeth Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais - dyddiad Ebrill 2017) Graig Fartha, Coed-elái, Tonyrefail.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms J Folkard (Asiant). Cafodd hi bum munud i roi ei barn ar y cais uchod.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu amlinelliad o'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafod y mater **PENDERFYNWYD** - i roi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio i gymeradwyo'r cais yn unol â'r argymhelliad ar yr amod bod Maes Awyr Caerdydd yn tynnu'i wrthwynebiad dros dro yn ôl cyn pen 6 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn heb angen unrhyw newidiadau i'r datblygiadau arfaethedig ac yn amodol ar newidiad i Amod 9 i "Dim llwythi nwyddau anghyffredin i ddigwydd rhwng yr oriau 0700 - 0900 a 1600 - 1800 ddydd Llun i ddydd Gwener, oni bai bod hynny'n cael ei gytuno mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol." Oni fydd Maes Awyr Caerdydd yn tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl cyn pen 6 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn neu os ydy tynnu'r gwrthwynebiad yn amodol ar newidiadau i'r datblygiad arfaethedig, bod y mater yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu ar gyfer trafodaeth bellach.

73 CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO

Yn ei adroddiad, amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio, y manylion ar gyfer y ceisiadau y mae'n argymell eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo Rhif Cais 17/0429- garej ddwbl ddomestig a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 14/08/17), tir oddi ar Broadfield Close Pen-y-graig, Tonypandy yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cynllunio.

74 ADRODDIAD ER GWYBODAETH

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer cyfnod 11 Medi 2017 a 22 Medi 2017.

**G.Caple
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 5:15pm.